Cardiff Students' Union
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
Dydd Iau 21ain Tachwedd 2024 – 18:00
Y Neuadd Fawr

## Agenda


| | | | |
|---|---|---|---|
| | 1. | Croeso | |
| Gorffennol | 2. | Cofnodion CCB Tachwedd 2023 | (T2) |
| | 3. | Adroddiad Blynyddol 23/24 | (T22) |
| | 4. | Adroddiad Ariannol 23/24 | (T23) |
| Presennol | 5. | Ymlyniadau | (T27) |
| | 6. | Cwestiynau Agored i'r Ymddiriedolwyr | |
| Dyfodol | 7. | Penderfyniad i Gymeradwyo Newidiadau Arfaethedig i Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu Undeb Myfyrwyr Caerdydd | (T28) |
| | 8. | Cynigion a Gyflwynwyd | |
| | | A) Polisi sy'n Dirwyn i Ben | (T31) |
| | | B) Cynigion a Gyflwynwyd | |
| | | i) Sicrhau Cyfiawnder: Galw o'r Newydd i Roi Diwedd ar Drais Rhywiol | (T32) |
| | | ii) Gwrthwynebu Toriadau i Gyfleoedd Addysgu ar gyfer Myfyrwyr PhD | (T36) |
| | | iii) Amddiffyn Ein Rhyddid i Fynegi Undod â Phalesteina | (T38) |
| | | iv) Amddiffyn Hawl Myfyrwyr i Drwyddedau Parcio yng Nghaerdydd | (T41) |
| | 9. | Hysbysiad Etholiadau | (T43) |
| | 10. | Unrhyw Fater Arall | |

## EITEM DAU

# CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
Dydd Iau, 23ain Tachwedd, 2023, 18:00
Y Neuadd Fawr, Undeb Myfyrwyr Caerdydd

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br><br>Croesawodd Rebecca Hardy (Cadeirydd) bawb a oedd yn bresennol ac amlinellodd sut byddai busnes yn cael ei gynnal yn ystod y cyfarfod. |
| 2. | **Cofnodion CCB 2022**<br><br>Aeth y Cadeirydd (RH) drwy'r cofnodion fesul tudalen a gwahoddodd mynychwyr i fynd at y pwynt gwybodaeth i dynnu sylw at unrhyw gamgymeriadau.<br><br>**Cadarnhawyd cofnodion CCB 2022 fel cofnod cywir ac fe'u cymeradwywyd.** |
| 3. | **Adroddiad Blynyddol 22/23**<br><br>Cyflwynodd Angie Flores Acuña (Llywydd yr UM) Adroddiad Blynyddol yr UM 22/23.<br><br>Tynnodd AFA sylw at waith a wnaed yn 2021-2022 o fewn Undeb y Myfyrwyr (UM) i gefnogi myfyrwyr gydag amrywiaeth eang o ymgyrchoedd, gan gynnwys ymgyrch a gynhaliwyd i gefnogi myfyrwyr gyda'r argyfwng costau byw. Nododd AFA y gwaith yr oedd yr UM wedi'i wneud i greu mwy o ardaloedd myfyrwyr, gan dynnu sylw at y gofod balconi newydd a agorwyd yn adeilad Cathays a'r ystafell gyffredin |


The heart of Cardiff student life
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd

| | |
|---|---|
| | Lolfa IV newydd a grëwyd ar Gampws Parc y Mynydd Bychan.<br>Siaradodd AFA am y gwaith arall a gwblhawyd i wella gofodau myfyrwyr drwy dynnu sylw at y lobïo llwyddiannus i ymestyn oriau agor Canolfan Bywyd y Myfyrwyr.<br>Daeth yr adroddiad i ben gyda AFA yn nodi bod gan yr UM mwy o fyfyrwyr unigryw yn ymgysylltu â'r sefydliad nag erioed o'r blaen. Nododd AFA fod yr adroddiad effaith a fideo yn rhannu straeon myfyrwyr am yr effaith gadarnhaol y mae'r UM wedi'i gael ar eu bywydau ar gael ar y wefan. |
| 4. | **Adroddiad Ariannol 22/23**<br>Cyflwynodd Daniel Palmer, y Prif Swyddog Gweithredol (DP), Adroddiad Ariannol 22/23 a datganiadau ariannol archwiliedig y grŵp a'r Undeb.<br>Dechreuodd DP yr adroddiad drwy roi trosolwg byr o sut mae'r sefydliad yn cael ei redeg, gan nodi ei fod yn cael ei arwain gan fyfyrwyr, yn annibynnol ar y brifysgol a'i fod yn elusen gofrestredig. Tynnodd DP sylw at y ffaith bod unrhyw arian sy'n cael ei gronni gan yr UM yn cael ei wario ar fyfyrwyr a gweithgarwch yr UM. Nododd DP fod dros 100 o staff gyrfa a thros 300 o fyfyrwyr yn gweithio i'r sefydliad.<br>Siaradodd DP am incwm yr UM sy'n fwy na 12.5 miliwn o bunnoedd y flwyddyn sy'n golygu mai'r sefydliad yw'r UM mwyaf ond un yn y Deyrnas Unedig. Yn ogystal, tair ffynhonnell incwm fwyaf yr UM am y flwyddyn oedd y grant bloc o dros 3 miliwn o bunnoedd gan y Brifysgol, 9 miliwn o bunnoedd mewn incwm |


The heart of Cardiff student life
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd

| | |
|---|---|
| | masnachu o wasanaethau megis siopau a bariau, a grantiau arbennig gan y brifysgol a'r llywodraeth.<br>Dangosodd DP y datganiad incwm ac amlinellodd fod yr incwm cyffredinol ond wedi codi ychydig o'r flwyddyn flaenorol. Roedd y proffil incwm yn wahanol gyda'r UM yn derbyn llai o grantiau arbennig gan y Brifysgol, ond bu cynnydd yn yr incwm o weithgareddau masnachol ac elusennol yr UM. Tynnodd DP sylw at y cynnydd mewn incwm Lleoliadau, Gosod Tai a'r Gwasanaeth SiopSwyddi.<br>Gwnaeth yr UM hefyd derbyn grant arbennig gan y brifysgol yn seiliedig ar arian a gawsant gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gweithgareddau lles ychwanegol. Er gwaethaf y twf incwm da, gwnaeth yr UM colled net o £641,000 am ddau brif reswm. Yn gyntaf, defnyddiwyd y grant arbennig a dderbyniwyd yn 2021/2022 gan y brifysgol i ailddatblygu'r ardal balconi a derbynfa. Yn ail, ychwanegwyd swm ychwanegol at rwymedigaethau pensiwn hirdymor yr UM ar ôl ailbrisio faint y bydd angen i'r UM ei dalu yn y dyfodol i fodloni rhwymedigaethau. Mae'r UM yn hyderus, unwaith i chi gael gwared ar yr eitemau eithriadol hyn, fod yr Undeb yn parhau i fod ar sylfaen gadarn a chynaliadwy wrth symud ymlaen a gall codi digon o arian i gwrdd â gwariant.<br>Nesaf siaradodd DP am berfformiad yr UM o ran ei werth sydd wedi symud o 9.8 miliwn i 9.2 miliwn. Mae gwerth yr UM wedi'i ddominyddu gan ddau ffactor sef gwerth adeilad yr UM sy'n ffurfio'r mwyafrif helaeth o'r asedau sefydlog a'r rhwymedigaeth bensiwn fawr gwerth tua 5 miliwn y mae'n rhaid i'r sefydliad ei dalu |

| | |
|---|---|
| | dros y 15 mlynedd nesaf. Mae’r UM wedi nodi bod angen codi 300,000 o bunnoedd y flwyddyn i ariannu’r rhwymedigaeth bensiwn, gyda hyn yn codi tua 50,000 y flwyddyn yn y 2030au.<br>Aeth DP ymlaen i egluro bod gan yr UM gronfeydd wrth gefn o tua 1.7 miliwn sydd i fyny gan 1.5 miliwn y llynedd. Wrth edrych i'r dyfodol mae’r UM wedi cyllidebu i wneud colled o £100,000 eleni oherwydd chwyddiant uchel, yn ogystal â chynnydd mewn cyflog i staff. Ar hyn o bryd mae’r UM ar drywydd i gyflawni'r gyllideb eleni, ond mae pryder am gostau byw yn enwedig i fyfyrwyr. Mae chwyddiant yn parhau i godi'n gynt nag incwm yr UM a disgwylir i'r heriau hyn barhau hyd y gellir rhagweld.<br>Rhannodd DP rai prosiectau mawr ar y gweill gan ganolbwyntio ar feysydd cynaliadwyedd a hygyrchedd. Mae’r UM wedi comisiynu adroddiad ar ymarferoldeb gosod ail lifft teithwyr yn yr UM ac mae’n disgwyl cyflwyno achos busnes i’r Brifysgol yn gofyn am £500,000 i gyflawni hyn. Mae’r UM hefyd yn symud ymlaen gyda phaneli solar ar y to; fodd bynnag, mae hyn wedi'i ohirio oherwydd darganfyddiad concrit RAAC yn y to ar y pedwerydd llawr. Bydd y gwaith yn ailddechrau unwaith bydd y mater o’r concrit RAAC wedi'i ddatrys.<br>Daeth yr adroddiad i ben.<br>Aeth AFA i'r llwyfan a chyflwyno'r fideo adroddiad effaith. |
| 5. | **Ymlyniadau**<br>Eglurodd RH ymlyniadau’r UM gydag UCM a BUCS a rhoddodd gyfle i'r aelodau drafod yr ymlyniadau. |


The heart of Cardiff student life
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd

| | |
|---|---|
| | Ni ddewisodd unrhyw aelod drafod yr ymlyniad gyda BUCS. Symudodd RH i bleidlais ar yr ymlyniad BUCS.<br>***Ymlyniad BUCS wedi'i gymeradwyo.***<br><br>Dewisodd aelodau drafod yr ymlyniad gydag UCM.<br>Siaradodd AFA o blaid yr ymlyniad UCM am hyd at 4 munud.<br>Siaradodd Penny Dingh (PD) yn erbyn yr ymlyniad UCM am hyd at 4 munud.<br>Siaradodd Deio Owen (DO) o blaid yr ymlyniad UCM am hyd at 4 munud.<br>Siaradodd Jack Morewood (JM) yn erbyn yr ymlyniad UCM am hyd at 4 munud.<br>Gwahoddodd y cadeirydd RH aelodau i bleidleisio ar yr ymlyniad UCM.<br><br>***Ymlyniad UCM wedi'i gymeradwyo.*** |
| 6. | **Cwestiynau Agored i'r Ymddiriedolwyr**<br>Eglurodd RH y gweithdrefnau ar gyfer cwestiynau i'r ymddiriedolwyr. Darllenodd RH y tri chwestiwn cyntaf:<br>1. "Beth yw statws y grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer ymgysylltiad gyda'r heddlu ac os nad yw'r adroddiad drafft yn barod, pam?<br>*Ymateb yr Ymddiriedolwyr:*<br>Atgoffodd Noah Russell IL Israddedig (NR) aelodau o brif agweddau'r cynnig Cops Oddi Ar y Campws a basiwyd yn CCB 2022. Arweiniodd hyn at y grŵp Gorchwyl a Gorffen (G&G) gyda'r bwriad o ailasesu ymgysylltiad yr UM gyda'r Heddlu. |



The heart of Cardiff student life
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd

| | |
|---|---|
| | Cymerodd y grŵp G&G tua naw mis i'w gwblhau, gan arwain at adroddiad drafft. Mae’r camau gweithredu, canlyniadau, ac amserlen o’r grŵp G&G i’w gweld ar wefan yr UM ynghyd â rhai Cwestiynau Cyffredin ynghylch gweithgarwch wrth symud ymlaen.<br>2. Beth sy'n digwydd gyda’r lifft yn yr UM, sydd yn aml ddim yn gweithio, gyda hyn yn rhwystro ar hygyrchedd?<br>*Ymateb yr Ymddiriedolwyr:*<br>Esboniodd Madison Hutchinson, IL Cymdeithasau a Gwirfoddoli (MH), fod gosod ail lifft teithwyr yn flaenoriaeth i’r UM gyda chynlluniau i drwsio’r lifft teithwyr presennol yn ystod gwyliau’r gaeaf. Roedd gan yr UM y dewis i gwblhau'r gwaith trwsio hwn yn ystod y tymor, fodd bynnag byddai hyn yn gofyn i’r lifft fod allan o wasanaeth am o leiaf 5 wythnos. Gyda lifftiau'r Brifysgol hefyd i lawr yn adeilad Canolfan Bywyd y Myfyrwyr, a'r nifer fawr o bobl yn yr adeilad, dewiswyd gwyliau'r gaeaf fel yr amser mwyaf addas i gwblhau'r gwaith atgyweirio. Mae’r UM wedi sefydlu traciwr hygyrchedd lifftiau ar y wefan a fydd yn galluogi myfyrwyr i wirio a yw’r lifft yn gweithio ai peidio. Ymddiheurodd MH ar ran yr UM am unrhyw anghyfleustra y mae hyn wedi'i achosi.<br>3. Mae llawer o fyfyrwyr, yn enwedig fy nghyd-ôl-raddedigion, yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â strwythur democratiaeth yr UM a chlywed am ddiweddariadau ar bolisïau, gweithgarwch, cofnodion cyfarfodydd megis y Senedd a Phwyllgorau Craffu nad sy’n cael eu cyhoeddi'n rheolaidd. Beth |

| | |
|---|---|
| | sy'n cael ei wneud i sicrhau bod democratiaeth yr UM yn hygyrch i bob myfyriwr ac nid llond llaw o arweinwyr myfyrwyr etholedig yn unig?<br>*Ymateb yr Ymddiriedolwyr:*<br>Rhannodd Micaela Panes IL Ôl-raddedig (MP) fod yr UM bob amser yn edrych i wella hygyrchedd eu prosesau democrataidd, ac enghraifft o hyn yw ffrydio’r CCB yn fyw am y tro cyntaf eleni. Mae’r UM hefyd wedi canolbwyntio ar gael mwy o fyfyrwyr i bleidleisio trwy ddirprwy os na allant fynychu'r CCB. Rhannodd MP obeithion y bydd myfyrwyr yn gallu ymgysylltu ar-lein yn CCB blwyddyn nesaf yn seiliedig ar gynnig a basiwyd drwy Senedd y Myfyrwyr yn ddiweddar. Nododd MP fod yr UM wedi gweld yr ymgysylltiad mwyaf erioed gan fyfyrwyr ôl-raddedig y flwyddyn honno, gan dynnu sylw at y ffaith gwnaeth mwy o fyfyrwyr sefyll ar gyfer y Pwyllgor Gweithredol Ôl-raddedig nag unrhyw rôl arall yn Etholiadau’r Hydref. Gwahoddodd MP myfyrwyr i siarad â'r Ymddiriedolwyr neu dîm Llais y Myfyrwyr gydag unrhyw adborth a allai fod ganddynt gan fod yr UM eisiau gwneud y prosesau hyn mor hygyrch â phosibl.<br>4. Beth mae’r UM wedi'i wneud i ymgysylltu ag ôl-raddedigion eleni?<br>*Ymateb yr Ymddiriedolwyr:*<br>Rhannodd MP ei bod eisoes wedi mynd i'r afael â rhan fawr o'r cwestiwn hwn yn ei hymateb i gwestiwn tri. Tynnodd MP sylw at y gwaith y mae’r UM wedi'i wneud i gynnwys myfyrwyr ôl-raddedig, gan grybwyll y gwaith y mae’r IL Cymdeithasau a Chwaraeon wedi'i wneud drwy gynnwys myfyrwyr ôl-raddedig yn ei system |

| | |
|---|---|
| | haenau. Rhannodd MP mai ymgysylltu ôl-raddedigion yw un o'i phrif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod a gwahoddodd myfyrwyr i gysylltu â hi gydag unrhyw awgrymiadau sydd ganddynt.<br>5. Beth mae'r Swyddogion Sabothol wedi'i wneud hyd yn hyn ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol eleni?<br>*Ymateb yr Ymddiriedolwyr:*<br>Eglurodd NR fod y Brifysgol yn cymryd mantais o fyfyrwyr rhyngwladol, a bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i ddatrys y mater hwn. Nododd NR eu bod yn eirioli dros fyfyrwyr rhyngwladol pan fyddant yn cyfarfod â'r brifysgol. Tynnodd NR sylw pellach at heriau sy'n wynebu myfyrwyr rhyngwladol oherwydd yr argyfwng tai yng Nghaerdydd. Dywedodd NR y bydden nhw'n gwthio i'r materion hyn gael eu datrys ym mhob cyfarfod; maent hefyd wedi bod yn gweithio gydag amrywiaeth o dimau prifysgol fel Preswylfeydd y Brifysgol a sefydliadau allanol fel Cyngor Caerdydd i sicrhau yr eir i'r afael â'r materion hyn. Yn olaf, nododd NR fod amrywiaeth o ymgyrchoedd UM ar waith sy'n gynhwysol o fyfyrwyr rhyngwladol.<br>6. Mae llawer o fyfyrwyr sy'n astudio ar Gampws Parc y Mynydd Bychan yn teimlo nad ydynt yn gallu ymgysylltu gyda'r UM, Cyngor i Fyfyrwyr, a Charu Caerdydd, a does dim byd ar gael yn hawdd i ni, felly beth ydych chi'n ei wneud i bontio'r bwlch hwn?<br>*Ymateb yr Ymddiriedolwyr:*<br>Ymatebodd Alex Meers, IL Parc y Mynydd Bychan (AM), drwy egluro bod yr UM |

| | |
|---|---|
| | yn ceisio ailadrodd cymaint o weithgarwch â phosibl ar Gampws Parc y Mynydd Bychan drwy wneud gwahanol stondinau galw heibio, fodd bynnag nododd fod modd gwneud mwy. Rhannodd AM ei fod yn bwriadu gwneud ymchwil yn y semester canlynol i ddeall pa weithgarwch a faint o weithgarwch yr hoffai myfyrwyr ei weld yn y Mynydd Bychan. Dywedodd AM ei fod bellach yn gweithio o'r Mynydd Bychan er mwyn bod yn fwy hygyrch i fyfyrwyr ac mae amryw o ymgyrchoedd UM yn cael eu cynnal yn y Mynydd Bychan. Gwahoddodd AM myfyrwyr i rannu unrhyw awgrymiadau i'w cynnwys yn y gwaith sy'n cael ei wneud.<br>7. Dylai iechyd meddwl myfyrwyr fod yn un o bryderon, os nad un pwysicaf, yr UM, gyda hyn mewn golwg pam mae gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu gwneud i deimlo mor amhersonol, gyda dibyniaeth ar ryngweithio ar-lein yn lle rhoi lle i ni siarad ag eraill a all helpu ni?<br>*Ymateb yr Ymddiriedolwyr:*<br>Ymatebodd Deio Owen, IL Iaith, Cymuned, a Diwylliant Cymru (DO), fod cyfrifoldebau'r IL Lles bellach wedi'u rhannu ar draws y tîm oherwydd ailstrwythuro'r tîm Swyddogion Sabothol. Tynnodd DO sylw at grwpiau myfyrwyr fel Meddyliau Myfyrwyr sy'n enghraifft o sut mae myfyrwyr yn cefnogi myfyrwyr eraill. Mae'r ymgyrch Gofalu Gyda'r Gaeaf ar waith ac atgoffodd DO myfyrwyr o'r digwyddiad a oedd i'w gynnal yn fuan. Siaradodd DO am ddefnyddio mecanweithiau adborth i alluogi'r tîm i godi materion iechyd meddwl gyda'r brifysgol. |

| | |
|---|---|
| | 8. A oes unrhyw beth yn cael ei wneud am y ciwiau sy'n dechrau'n chwerthinllyd o gynnar ar gyfer YOLO, a pham nad yw'r disgo tawel yn parhau ar nos Fercher, mae'r Plas yn beryglus o lawn nos Fercher o ganlyniad?<br>*Ymateb yr Ymddiriedolwyr:*<br>Dywedodd MH bod yr UM yn falch o faint o fyfyrwyr oedd eisiau dod i glwb nos YOLO yr UM. Amlygodd MH fod diogelwch myfyrwyr yn un o flaenoriaethau sylfaenol yr UM. Rhannodd MH fod yr UM yn annog myfyrwyr i gyrraedd YOLO yn hwyrach bob wythnos, fodd bynnag bydd yr UM yn agor y drysau cyn i ddiogelwch ddod yn bryder. Mae'r UM yn rhoi cynnig ar wahanol opsiynau ar gyfer nosweithiau Fercher gan gynnwys cael disgo tawel ar wahân. Croesawodd MH adborth myfyrwyr ar y digwyddiadau.<br>9. A oes cynllun i wella cyfleusterau chwaraeon o fewn y Brifysgol ar gyfer chwaraeon tu hwnt i bêl-droed, rygbi, pêl-rwyd a hoci megis pyllau nofio ar gyfer cymdeithasau chwaraeon fel triathlon, nofio a pholo dŵr?<br>*Ymateb yr Ymddiriedolwyr:*<br>Darparodd Georgia Spry, IL Chwaraeon a Llywydd yr UA (GS), gyd-destun ar annibyniaeth yr UM fel sefydliad o'r Brifysgol, gan amlygu bod y cyfleusterau chwaraeon yn rhan o'r Brifysgol. Mae'r UM yn talu swm i Chwaraeon Prifysgol Caerdydd i alluogi'r UM i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn. Soniodd GS y gall hyn greu problemau o ran cael mwy o amser yn y mannau hyn ond hefyd o ran creu |

| | |
|---|---|
| | cyfleusterau newydd gan fod angen lobïo am y rhain. Rhannodd GS mai lobïo'r brifysgol am fwy o lefydd yw un o'i phrif flaenoriaethau a gwahoddodd fyfyrwyr i rannu unrhyw adborth gan y gall mwy o leisiau helpu sicrhau newid.<br>10. Beth mae'r UM yn ei wneud i roi pwysau ar y Brifysgol i ad-dalu ffioedd i fyfyrwyr yr effeithiwyd arnynt gan COVID a streiciau?<br>*Ymateb yr Ymddiriedolwyr:*<br>Rhannodd AFA fod yr UM wedi bod yn lobïo'r Brifysgol yn gyhoeddus a thu ôl i'r llenni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i roi'r arian sy'n ddyledus i fyfyrwyr iddynt am gynnwys a gollwyd yn ystod streiciau a marciau coll oherwydd y boicot marcio ac asesu. Mae hyn wedi cael ei wneud mewn cydweithrediad ag UCU ac mae'r UM yn hapus i rannu bod llawer o fyfyrwyr wedi derbyn iawndal. Croesawodd AFA unrhyw fyfyrwyr sy'n parhau i gael problemau i gysylltu â hi.<br>11. Nid oes gan gymudwyr unrhyw gynrychiolaeth swyddogol yn yr Undeb, a yw hyn yn mynd i gael sylw gan fod llawer o bryderon iechyd megis unigedd ac iselder ymhlith y grŵp hwn?<br>*Ymateb yr Ymddiriedolwyr:*<br>Diolchodd AM cymudwyr am godi hyn a nododd ei fod wedi codi hyn gyda'r Brifysgol o ystyried bod yn rhaid i fyfyrwyr Parc y Mynydd Bychan gymudo i leoliadau o fewn y GIG. Rhannodd AM ddealltwriaeth o'r angen am gynrychiolaeth ehangach o fewn yr undeb ar gyfer cymudwyr a dywedodd wrth y myfyrwyr ei fod o fewn pŵer Senedd y Myfyrwyr i sefydlu rôl o'r fath os oes gan fyfyrwyr |

| | |
|---|---|
| | ddiddordeb. Eglurodd AM ymhellach y gellir cyflwyno hwn fel cynnig i Senedd y Myfyrwyr ei drafod. Cynigiodd AM gefnogaeth i unrhyw fyfyrwyr a hoffai siarad am y broses hon yn dilyn y cyfarfod.<br>12. Mewn ymateb i'r golled weithredol a wnaed yn BA2023, ai blaenoriaeth yr UM yw cynyddu incwm a gwaddolion ar gyfer BA2024 neu leihau gwariant a sut y byddwch yn cyflawni hyn?<br>*Ymateb yr Ymddiriedolwyr:*<br>Rhannodd DO mai nod yr ymddiriedolwyr yw sicrhau bod gan yr UM ddigon o adnoddau a chyllid wrth gefn i alluogi'r sefydliad i weithredu yn y tymor hir. Cyfeiriodd DO yn ôl at y datganiad ariannol a roddwyd yn y cyfarfod, lle'r oedd y sefydliad yn gweithredu ar golled ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-2023. Esboniodd DO fod y sefydliad wedi gwneud gwarged gweithredol sylweddol a oedd yn gadarnhaol, sydd ar y cyfan wedi golygu symudiad cadarnhaol yng nghronfeydd wrth gefn cyffredinol yr UM sy'n golygu eu bod yn dal cronfeydd wrth gefn sy'n uwch na'r lefelau targed. Gwahoddodd DO fyfyrwyr i gysylltu â nhw gydag unrhyw gwestiynau pellach.<br>Dywedodd RH fod amser ar ben ar gyfer Cwestiynau i'r Ymddiriedolwyr a gwahoddwyd mynychwyr i gyflwyno unrhyw gwestiynau pellach trwy e-bost i'r Swyddogion Sabothol.<br>Codwyd her i ddyfarniad y Cadeirydd a gwahoddwyd yr Is-gadeirydd i oruchwylio'r her. |

| | |
|---|---|
| | Heriodd Jack Morewood ddyfarniad y Cadeirydd i symud ymlaen at yr eitem nesaf ar yr agenda drwy gynnig gweithdrefnol. Siaradodd JM am hyd at 2 funud o blaid y cynnig gweithdrefnol. Siaradodd RH yn erbyn y cynnig gweithdrefnol am hyd at 2 funud.<br>***Methodd y cynnig gweithdrefnol.***<br>Dywedodd RH eto fod amser ar ben ar gyfer Cwestiynau i'r Ymddiriedolwyr a gwahoddwyd mynychwyr i gyflwyno unrhyw gwestiynau pellach trwy e-bost i'r Swyddogion Sabothol. Nododd RH y byddai'r cwestiynau a'r atebion ar gael ar wefan yr UM. |
| | Darllenodd RH ddatganiad ar ran yr UM yn nodi'r disgwyliadau a rheolau ar gyfer dadlau parchus rhwng myfyrwyr. |
| 7. | **Strwythur Swyddogion Sabothol**<br>Eglurodd RH mai’r CCB yw'r unig le y gellir penderfynu ar y strwythur Swyddogion Sabothol. Tynnodd RH sylw at y strwythur newydd a gynigiwyd yn y papur a gyflwynwyd sy'n debyg i'r strwythur blaenorol gydag un newid wedi'i nodi i IL Iaith, Cymuned, a Diwylliant Cymru. Rhannodd RH mai dim ond trwy bleidlais yn y CCB y gellir cymeradwyo hyn ond nid yw hwn yn gynnig safonol.<br>Yna esboniodd RH y gweithdrefnau ar gyfer dadlau yn y cyfarfod.<br>Gwahoddodd RH DO i siarad fel cynigydd y papur.<br>***Cyflwynwyd diwygiad i’r cynnig hwn.***<br>Diwygiad 1 yw newid rôl o IL Israddedig (Addysg a Lles) i IL Myfyrwyr |


The heart of Cardiff student life
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd

| | |
|---|---|
| | Rhyngwladol (Addysg a Lles).<br>Gwahoddodd RH gynigydd y cynnig Nathan Mintz (NM) i siarad am hyd at 2 funud.<br>Cynigiodd NM y diwygiad gan nodi pwysigrwydd cynrychiolaeth myfyrwyr rhyngwladol. Rhannodd NM fod myfyrwyr rhyngwladol yn cael eu cynrychioli gan swyddog rhan-amser a dywedodd nad oedd hyn yn ddigonol. Tynnodd NM sylw at yr angen am swyddog amser llawn ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol.<br>Siaradodd AFA yn erbyn y diwygiad am hyd at 2 funud.<br>Siaradodd Ambrose Mui o blaid y diwygiad am hyd at 2 funud.<br>Siaradodd Marc Perez yn erbyn y diwygiad am hyd at 2 funud.<br>Siaradodd Tom Spare o blaid y diwygiad am hyd at 2 funud.<br>Siaradodd MP yn erbyn y diwygiad am hyd at 2 funud.<br>Gwahoddodd RH NM i ddarparu crynodeb o'r cynnig arfaethedig.<br>Oedodd RH y ddadl wrth i gynnig gweithdrefnol cael ei gyflwyno i wrthdroi dyfarniad y Cadeirydd ynglŷn â'r terfyn amser ar gyfer y ddadl.<br>Gofynnodd RH i'r ystafell bleidleisio a hoffent glywed y dadleuon o blaid y cynnig gweithdrefnol.<br>***Syrthiodd y cynnig ar gyfer dadl cynnig gweithdrefnol.***<br>Gwahoddodd RH aelodau i bleidleisio ar y gwelliannau i'r cynnig.<br>Cyflwynwyd her i ddyfarniad y Cadeirydd mewn perthynas â'r ffaith nad oedd y ddadl ar y cynnig gweithdrefnol yn cael ei chlywed. |

| | |
|---|---|
| | Dywedodd RH y byddai'r ddadl ar y cynnig gweithdrefnol, a oedd wedi methu o'r blaen, yn cael ei hailddechrau.<br><br>Gwahoddodd RH cynigydd y cynnig gweithdrefnol i siarad.<br><br>Cynigiodd Ambrose Mui y cynnig gweithdrefnol.<br><br>Gwahoddodd RH aelodau i bleidleisio ar y cynnig gweithdrefnol.<br><br>***Syrthiodd y cynnig gweithdrefnol.***<br><br>Gwahoddodd RH aelodau i bleidleisio dros y diwygiad arfaethedig i'r cynnig.<br><br>***Pasiodd y diwygiad cyntaf i'r cynnig.***<br><br>Cyflwynodd RH yr ail ddiwygiad i'r cynnig a fyddai'n gweld teitlau'r Is-lywyddion yn cael eu newid i Swyddogion.<br><br>Gwahoddodd RH cynigydd y gwelliant JM i siarad am hyd at 2 funud.<br><br>Cynigiodd JM yr ail welliant mewn gwrthwynebiad i ddefnyddio'r term Is-lywydd gan nodi nad yw UM yn weithrediaeth arlywyddol mewn unrhyw ffordd. Rhannodd JM nad oes unrhyw bŵer gweithredol ac nid yw'r termau Llywydd ac Is-lywydd yn cyfleu'r hyn y mae'r rolau yn eu golygu.<br><br>Siaradodd MP yn erbyn y diwygiad am hyd at 2 funud.<br><br>Darparodd JM grynodeb o'r diwygiad.<br><br>Gwahoddodd RH yr ystafell i bleidleisio ar y gwelliant.<br><br>***Syrthiodd yr ail ddiwygiad i'r cynnig.***<br><br>Ailddechreuodd RH y ddadl ar y cynnig gan wahodd rhywun i siarad yn erbyn y cynnig. |

| | |
|---|---|
| | Siaradodd Marc Perez yn erbyn y cynnig am hyd at 4 munud.<br><br>Siaradodd Nathan Minz o blaid y cynnig am hyd at 2 funud.<br><br>Gwahoddodd RH yr ystafell i bleidleisio ar y cynnig.<br><br>***Pasiodd y cynnig gyda'r diwygiad cyntaf.*** |
| | Cynigiodd RH ddiwygio trefn busnes y cyfarfod i drafod y cynnig Cadoediad Nawr yn gyntaf, gyda'r cynnig Amser Gweithredu yn ail, wedyn y cynigion eraill yn y drefn a nodwyd yn flaenorol.<br><br>Gwahoddodd RH yr ystafell i bleidleisio ar y newid i drefn y busnes.<br><br>***Pasiodd y newid i drefn y busnes.*** |
| i. | **Cadoediad Nawr:**<br><br>Gwahoddodd RH gynigydd y cynnig i siarad am hyd at 4 munud.<br><br>Cynigiodd Bethany Thomas y cynnig Cadoediad Nawr gan rannu ei theimladau a phwysigrwydd codi'r cynnig hwn. Rhannodd y cynigiwr effaith y gwrthdaro ar fywydau gan amlygu pwysigrwydd codi lleisiau a chefnogaeth.<br><br>Siaradodd Jake Enea yn erbyn y cynnig am hyd at 4 munud.<br><br>Darparodd Bethany Thomas grynodeb o'r cynnig.<br><br>Gwahoddodd RH yr ystafell i bleidleisio ar y cynnig.<br><br>***Pasiodd y Cynnig (Cadoediad Nawr).*** |
| ii. | **Amser Gweithredu: Mynd i'r afael â Chamymddwyn Rhywiol ym Mhrifysgol Caerdydd**<br><br>Gwahoddodd RH gynigydd y cynnig i siarad am hyd at 4 munud.<br><br>Cyflwynwyd her i ddyfarniad y Cadeirydd am barhau yn ystod anhrefn y cynnig |



The heart of Cardiff student life
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd

| | |
|---|---|
| | blaenorol.<br><br>Gwahoddodd yr Is-gadeirydd gynigydd yr her i ddyfarniad y Cadeirydd i siarad am hyd at 2 funud.<br><br>Siaradodd JM am hyd at 2 funud ar yr her i ddyfarniad y Cadeirydd.<br><br>Tynnodd JM yr her yn ôl.<br><br>Gwahoddodd RH gynigydd y cynnig gwreiddiol i siarad am hyd at 4 munud.<br><br>Cynigiodd Bethea Tucker (BT) y cynnig gan rannu bod y Brifysgol yn methu myfyrwyr wrth ymdrin â materion camymddwyn rhywiol ar y campws. Amlygodd BT problemau yn ymwneud â diffyg adrodd achosion, diffyg cefnogaeth, a chamymddwyn rhywiol ar y campws.<br><br>Gwahoddodd RH aelodau i siarad yn erbyn y cynnig. Ni ddewisodd unrhyw un siarad yn erbyn.<br><br>Gwahoddodd RH y cynigydd i ddychwelyd am grynodeb.<br><br>Darparodd Rebbeca Rumsey grynodeb o'r cynnig am hyd at 2 funud.<br><br>Gwahoddodd RH yr ystafell i bleidleisio ar y cynnig.<br><br>***Pasiodd y Cynnig (Amser Gweithredu: Mynd i'r afael â Chamymddwyn Rhywiol ym Mhrifysgol Caerdydd).*** |
| iii. | **Prifysgol Well a Mwy Cynhwysol**<br><br>Gwahoddodd RH gynigydd y cynnig i siarad am hyd at 4 munud.<br><br>Siaradodd Zohaib ar ran y Gymdeithas Islamaidd a siaradodd MH ar ran y Gymdeithas Iddewig. Eglurodd MH fod y cynnig yn ceisio meithrin amgylchedd mwy cynhwysol ar gyfer holl fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Rhannodd MH fod y |

| | |
|---|---|
| | cynnig yn canolbwyntio ar sawl agwedd allweddol ar gynhwysiant crefyddol a diwylliannol.<br>Cyflwynwyd diwygiad i'r cynnig. Gwahoddodd RH gynigydd y diwygiad i siarad am hyd at 2 funud.<br>Cynigiodd Penny Dingh (PD) y diwygiadau i'r cynnig.<br>Siaradodd Zohaib yn erbyn y diwygiadau i'r cynnig am hyd at 2 funud.<br>Darparodd PD grynodeb o'r diwygiadau i'r cynnig.<br>Gwahoddodd RH yr ystafell i bleidleisio ar y diwygiadau.<br>***Pasiodd y diwygiadau.***<br>Ailddechreuodd RH y ddadl ar y cynnig.<br>Gwahoddodd RH PD i ddarparu crynodeb o'r cynnig.<br>Gwahoddodd RH yr ystafell i bleidleisio ar y cynnig.<br>***Pasiodd y Cynnig (Prifysgol Well a Mwy Cynhwysol).*** |
| iv. | **Yr Argyfwng Hinsawdd: System Fwyd Cynaliadwy yn Seiliedig ar Dystiolaeth ar gyfer Prifysgol Caerdydd.**<br>Gwahoddodd RH gynigydd y cynnig i siarad am hyd at 4 munud.<br>Cyflwynodd Olivia Herries (OH) y cynnig. Rhannodd OH bryderon am yr argyfwng hinsawdd a pha effaith y mae hyn yn ei gael ar y blaned. Rhannodd OH ei barn ar y camau y gellir eu cymryd, gan amlinellu'n benodol systemau bwyd cynaliadwy sy'n osgoi defnyddio cynnyrch anifeiliaid. Rhannodd OH fod y cynnig yn canolbwyntio ar sefydlu newid i fwyd o blanhigion o fewn y Brifysgol.<br>Cyflwynwyd diwygiad i'r cynnig. Gwahoddodd RH gynigydd y diwygiad i siarad am |


The heart of Cardiff student life
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd

| | |
|---|---|
| | hyd at ddau funud<br><br>Siaradodd Long o blaid y diwygiad i'r cynnig.<br><br>Siaradodd OH yn erbyn y diwygiad am hyd at ddau funud.<br><br>Crynhodd Long y diwygiad i'r cynnig.<br><br>Gwahoddodd RH yr ystafell i bleidleisio ar y diwygiad.<br><br>***Pasiodd y diwygiad.***<br><br>Ailddechreuodd RH y ddadl ar y cynnig.<br><br>Cyflwynwyd ail ddiwygiad i'r cynnig. Rhannodd RH nad oedd y cynigydd yn bresennol a gwahoddodd unrhyw un yn yr ystafell i gyflwyno'r diwygiad. Nid oedd unrhyw wirfoddolwyr.<br><br>Gwahoddodd RH yr ystafell i bleidleisio ar yr ail ddiwygiad.<br><br>***Syrthiodd yr ail ddiwygiad.***<br><br>Ailddechreuodd RH y ddadl ar y cynnig.<br><br>Siaradodd Hanna Pageau yn erbyn y cynnig am hyd at 4 munud.<br><br>Siaradodd Tom o blaid y cynnig am hyd at 2 funud.<br><br>Siaradodd Charlie yn erbyn y cynnig am hyd at 2 funud.<br><br>Gwahoddodd RH y cynigydd i ddarparu crynodeb. Rhoddodd OH grynodeb o'r cynnig.<br><br>Gwahoddodd RH yr ystafell i bleidleisio ar y cynnig wedi'i ddiwygio.<br><br>**Syrthiodd y cynnig (Yr Argyfwng Hinsawdd: System Fwyd Cynaliadwy yn Seiliedig ar Dystiolaeth ar gyfer Prifysgol Caerdydd).** |
| | *Daeth yr amser a neilltuwyd ar gyfer y cyfarfod i ben ac felly ni chafodd y cynnig* |

| | |
|---|---|
| | *Eirioli dros Ddiddymu Ffioedd Dysgu ei drafod a gafodd ei gyflwyno ar gyfer trafodaeth yn y Senedd y Myfyrwyr nesaf.* |
| 9. | **Unrhyw fater arall**<br><br>*Ni chyflwynwyd 'Unrhyw Fater Arall' ychwanegol a daeth y cyfarfod i ben.* |

# EITEM TRI

**ADRODDIAD BLYNYDDOL 23/24**

Bydd Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Madison Hutchinson, yn cyflwyno'r prif negeseuon o'r adroddiad, gan dynnu sylw at ddatblygiadau, llwyddiannau, a newidiadau sylweddol o fewn y sefydliad yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24.

Gellir darllen adroddiad effaith blynyddol 2023-24 yma:
https://www.cardiffstudents.com/about/hwr/reports-and-policy/

# EITEM PEDWAR

**ADRODDIAD ARIANNOL 23/24**

## Adroddiad Ariannol

Bydd yr ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ar yr elusen er mwyn Deddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen a'i is-gorff ar gyfer y flwyddyn orffennodd 31 Gorffennaf 2023. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu'r darpariaethau Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (effeithiol 1 Ionawr 2019).

**AMCANION A GWEITHGAREDDAU**

Amcanion yr elusen yw datblygu addysg myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd er budd cyhoeddus drwy:

- Hyrwyddo diddordebau a lles myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd yn ystod eu cyfnod astudio a chynrychioli, cefnogi, a chynghori myfyrwyr;
- Gweithredu fel y sianel gynrychiolaeth gydnabyddedig rhwng myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd ac unrhyw gyrff allanol eraill; a
- Darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon, a hamdden, a fforymau ar gyfer trafod a dadlau er mwyn datblygiad personol myfyrwyr.

Wrth lunio amcanion yr Undeb ar gyfer y flwyddyn a chynllunio ei weithgareddau, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau cyffredinol ac atodol perthnasol y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn er budd cyhoeddus mae'r Undeb wedi sefydlu adrannau a gwasanaethau ar gyfer defnydd gan ei aelodau ac mae'n gweithio gyda'r Brifysgol a sefydliadau eraill ar ran myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

Mae'r Undeb yn gosod ei flaenoriaethau hirdymor yn unol â'i gynllun strategol, wedi'i adolygu'n rheolaidd a'i seilio ar ymchwil cafodd ei gynnal gyda myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried y cynllun strategol wrth osod amcanion blynyddol yr Undeb, wedi'u mynegi trwy gerdyn sgorio cytbwys a'u dilyn gan ymddiriedolwyr a staff yr Undeb. Ym mis Rhagfyr 2021 lansiwyd cynllun strategol presennol yr Undeb ar gyfer 2021 i 2025, gyda'r teitl 'Calon Bywyd Myfyrwyr Caerdydd' a gellir ei ddarllen yma: https://www.cardiffstudents.com/about/hwr/our-strategy/. Dros y flwyddyn academaidd nesaf, bydd y sefydliad yn cyflawni adolygiad o'r cynllun strategol ar gyfer wedi 2025, gyda datblygiad hyn yn cynnwys ymgysylltu gyda rhanddeiliaid perthnasol.

## ADOLYGIAD ARIANNOL

Daeth cyfanswm incwm y grŵp i £12,908,971 (2023: £12,393,500) gyda chyfanswm gwariant o £12,835,212 (2023: £12,643,876) yn ystod y flwyddyn. Gwnaeth dirwyn i ben y ddarpariaeth pensiwn wedi'i ddisgowntio arwain at ddebyd i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol o (146,796) (2023: £(390,908)). Arweiniodd hyn at wariant net o £(73,037) (2023: £(641,284)). Mae hyn yn cynnwys diffyg cyfyngedig o £29,326 a diffyg anghyfyngedig o £(102,363).

Ar 31 Gorffennaf 2024, daeth cronfeydd rhydd wrth gefn y grŵp (h.y. cyllid anghyfyngedig ac eithrio cyllid dynodedig a heb ei gynrychioli gan asedau sefydlog a rhwymedigaethau cronfa bensiwn) i £1,886,847 (2023: £1,746,590) ac mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon fod gan yr Undeb seiliau ariannol cadarn i allu parhau i weithredu a gweithio tuag at ei amcanion a gweithgareddau. Yn ogystal roedd £72,934 (2023: £43,608) pellach mewn cyllid nad sy'n rhydd.

O fewn is-gorff masnachu'r Undeb, Gwasanaethau Undeb Caerdydd Cyfyngedig, cynyddodd trosiant i £5,807,849 (2023: £5,515,116) gan arwain at elw gros o £2,759,189 (2023: £2,517,348). Cynyddodd costau gweinyddol i £5,109,202 (2023: £4,808,546) yn ystod y flwyddyn. Adroddodd yr is-gorff masnachu colled o £(432,044) (2023: elw £80,034).

Yn ystod y flwyddyn gwnaeth rhwymedigaeth pensiwn y cwmni masnachu gwympo i £4,625,233 (2023:  £4,821,724) o ganlyniad i ddiweddaru gwerth net presennol cyfraniadau diffyg yn y dyfodol ac ystyried taliadau diffyg wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn. Mae'r diffyg yn codi o rwymedigaethau yn y dyfodol i Gynllun Pensiwn Undeb y Myfyrwyr (SUSS), a gafodd ei gau i groniadau yn y dyfodol yn 2011. Mae'r ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr yn fodlon fod ganddo'r cyllid i gwrdd â'r rhwymedigaethau i'r gronfa wrth iddyn nhw ddod yn ddyledus dros oes y Cynllun Adfer Diffyg hyd at 2037.

## POLISI CRONFEYDD

Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu sefyllfa cronfeydd yr Undeb yn flynyddol ac yn gosod targedau ar gyfer lefelau cronfeydd yn ôl anghenion y dyfodol, os na fydd cyllid ar gael o'r prif ffynonellau o gyllid. Mae polisi cronfeydd yr Undeb yn datgan y bydd yr Undeb yn cyllidebu er mwyn cael arian dros ben bob blwyddyn o'i weithgareddau cyfunol er mwyn adeiladu cronfeydd anghyfyngedig rhydd wrth gefn o £1.6m. Mae cronfeydd rhydd wedi'u diffinio fel 'cronfeydd anghyfyngedig nad sydd wedi'u cynrychioli gan asedau sefydlog'.

Ar 31 Gorffennaf 2024 cyfanswm cronfeydd rhydd yr elusen oedd £2,950,009 (2023: £2,612,917) ac roedd gan y grŵp sefyllfa gyfunol o £1,886,847 (2023: £1,746,590).

CARDIFF UNIVERSITY STUDENTS' UNION

CONSOLIDATED STATEMENT OF FINANCIAL ACTIVITIES
(INCORPORATING AN INCOME AND EXPENDITURE ACCOUNT)
FOR THE YEAR ENDED 31 JULY 2024

| | Notes | Unrestricted fund £ | Restricted funds £ | 2024 Total funds £ | 2023 Total Funds £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **INCOME AND ENDOWMENTS FROM** | | | | | |
| Donations and legacies | 3 | 3,326,975 | 326,000 | 3,652,975 | 3,380,884 |
| Charitable activities | 6 | 3,398,707 | - | 3,398,707 | 3,482,313 |
| Other trading activities | 4 | 5,807,849 | - | 5,807,849 | 5,515,116 |
| Investment income | 5 | 49,440 | - | 49,440 | 15,187 |
| **Total** | | 12,582,971 | 326,000 | 12,908,971 | 12,393,500 |
| **EXPENDITURE ON** | | | | | |
| Raising funds | 8 | 8,147,112 | - | 8,147,112 | 7,812,760 |
| Charitable activities | 9 | 4,622,578 | 65,522 | 4,688,100 | 4,831,116 |
| **Total** | | 12,769,690 | 65,522 | 12,835,212 | 12,643,876 |
| **NET INCOME / (EXPENDITURE)** | | (186,719) | 260,478 | 73,759 | (250,376) |
| Unwinding of discounted pension provision | | (146,796) | - | (146,796) | (390,908) |
| **Net income/(expenditure) for the year** | | (333,515) | 260,478 | (73,037) | (641,284) |
| **Transfer between funds** | | 231,152 | (231,152) | - | - |
| | | (102,363) | 29,326 | (73,037) | (641,284) |
| **RECONCILIATION OF FUNDS** | | | | | |
| **Total funds brought forward** | | 9,177,354 | 43,608 | 9,220,962 | 9,862,246 |
| **TOTAL FUNDS CARRIED FORWARD** | | 9,074,991 | 72,934 | 9,147,925 | 9,220,962 |

**CARDIFF UNIVERSITY STUDENTS' UNION**

**CONSOLIDATED AND CHARITY BALANCE SHEET**
**31 JULY 2024**

| | | Group | | Charity | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2024 | 2023 | 2024 | 2023 |
| | Notes | £ | £ | £ | £ |
| **FIXED ASSETS** | | | | | |
| Tangible assets | 15 | 11,813,378 | 12,252,488 | 6,865 | 14,277 |
| Investments | 16 | 73,563 | 73,563 | 2,000 | 2,000 |
| | | 11,886,941 | 12,326,051 | 8,865 | 16,277 |
| **CURRENT ASSETS** | | | | | |
| Stocks | 17 | 102,608 | 136,326 | - | - |
| Debtors: amounts falling due within one year | 18 | 1,095,427 | 1,035,164 | 1,395,959 | 1,534,727 |
| Cash at bank | | 3,213,321 | 2,591,521 | 2,828,322 | 2,122,396 |
| | | 4,411,356 | 3,763,011 | 4,224,281 | 3,657,123 |
| **CREDITORS** | | | | | |
| Amounts falling due within one year | 19 | (2,525,139) | (2,046,376) | (1,203,338) | (1,002,598) |
| **NET CURRENT ASSETS** | | 1,886,217 | 1,716,635 | 3,020,943 | 2,654,525 |
| **TOTAL ASSETS LESS CURRENT LIABILITIES** | | 13,773,158 | 14,042,686 | 3,029,808 | 2,670,802 |
| **PENSION LIABILITY** | 21 | (4,625,233) | (4,821,724) | - | - |
| **NET ASSETS** | | 9,147,925 | 9,220,962 | 3,029,808 | 2,670,802 |
| **FUNDS** | 23 | | | | |
| Revaluation reserve | | 8,814,127 | 9,183,828 | - | - |
| Pension reserve | | (4,625,233) | (4,821,724) | - | - |
| Unrestricted funds – Designated | | 2,999,250 | 3,068,660 | 6,865 | 14,277 |
| Unrestricted funds - General | | 1,886,847 | 1,746,590 | 2,950,009 | 2,612,917 |
| Restricted funds | | 72,934 | 43,608 | 72,934 | 43,608 |
| **TOTAL FUNDS** | | 9,147,925 | 9,220,962 | 3,029,808 | 2,670,802 |

# EITEM PUMP

## YMLYNIADAU

**Ffi Ymlynu UCM:** £37,500.00

**Ffi Ymlynu BUCS:** £24,843.00

- Mae llawer o'n clybiau chwaraeon a chymdeithasau cofrestredig wedi'u hymlynu ag amrywiaeth o gyrff llywodraethu chwaraeon a diwylliannol cenedlaethol.

# EITEM SAITH

## PENDERFYNIAD I GYMERADWYO NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I FEMORANDWM AC ERTHYGLAU CYMDEITHASU UNDEB MYFYRWYR CAERDYDD

1. Mae Memorandwm ac Erthyglau'r Undeb yn ddogfen sy'n ffurfio cyfansoddiad yr Undeb, ac yn diffinio cyfrifoldebau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, y math o fusnes y mae'r Undeb yn ei gyflawni, a sut mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr wedi'i gadw'n atebol gan fyfyrwyr. Mae'r Erthyglau yn gofyn i'r Memorandwm ac Erthyglau cael eu hadolygu bob pum mlynedd.

   Mae adolygiad wedi cael ei gwblhau a gafodd ei gyflwyno i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ym mis Medi 2024. Yn dilyn hyn, cyhoeddwyd y newidiadau arfaethedig i fyfyrwyr ar gyfer cyfnod ymgynghori o un mis.

   Cynigiwyd un diwygiad yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn unol â'r weithdrefn yn yr Erthyglau mae hyn wedi cael ei ystyried gan Senedd y Myfyrwyr, a'i wrthod.

2. Mae crynodeb o'r newidiadau wedi'u cynnig gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr wedi'i osod allan isod. Nodwch, mae'r cyfnod ymgynghori wedi cau, a ni fydd y CCB yn gallu cynnig unrhyw ddiwygiadau pellach.

3. Mae gofyn i'r CCB derbyn y newidiadau i'r Memorandwm ac Erthyglau, ar gyfer ystyriaeth gan Gyngor Prifysgol Caerdydd.

**Crynodeb o'r newidiadau i'r Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu wedi'u cytuno gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr ym mis Medi 2024.**

Nodwch: Mae'r newidiadau arfaethedig yn cwympo i ddau gategori:

- Newidiadau sylweddol a darpariaethau newydd
- Diwygiadau i'r testun a thacluso gweinyddol

Mae'r cyntaf wedi'u crynhoi isod. Cafodd y gweddill eu nodi yn y copi a rhannwyd gyda myfyrwyr ar gyfer yr ymgynghoriad, ac maent wedi'u hystyried yn hunanesboniadol, felly nid ydynt wedi'u hailadrodd yma.

Nodyn ar rifo: Nodwyd anghysondeb rhifo yn Erthygl 16 ar ôl y cyfnod ymgynghori. Mae hyn wedi cael ei ddileu gyda'r effaith bod pob Erthygl o 17 ymlaen wedi'u hail-rifo un yn is. Mae hyn wedi cael ei groesgyfeirio drwy'r ddogfen, ond ar wahân am hyn ni wnaed unrhyw ddiwygiad testunol pellach.

**Cyngor/Senedd y Myfyrwyr**

Mae'r Cyngor y Myfyrwyr a Senedd y Myfyrwyr yn enwau cyfnewidiol. Mae'r corff fwyaf adnabyddus fel y Senedd ac mae etholiadau'n cael eu cynnal ar gyfer llefydd ar y Senedd. Mae'r Erthyglau presennol yn parhau i ddefnyddio Cyngor, a chynigir bod yr Erthyglau'n cael eu dwyn yn unol â defnydd ac arferiad cyffredin.

**'Er mwyn osgoi amheuaeth'**

Mae'r ymadrodd hwn yn ymddangos sawl gwaith o fewn y ddogfen ond nid yw'n ychwanegu unrhyw beth at ystyr y darpariaethau felly cynigir ei ddileu.

**Erthygl 5.3**

Roedd RAG (Codi a Rhoi) yn rhan draddodiadol o weithgarwch codi arian myfyrwyr ond nid yw'n gweithredu o dan yr enw hwn rhagor. Cynigir dileu'r cyfeiriad penodol at RAG a gadael y geiriad ehangach o "weithgareddau codi arian". Yn yr un modd bydd RAG yn cael ei ddileu o'r rhestr dermau.

**Erthygl 6**

Darpariaeth newydd fel nad yw ymddiriedolwyr sy'n fyfyrwyr a gyflogir y tu allan i'r Undeb drwy'r SiopSwyddi wedi'u hystyried wedi'u cyflogi gan yr Undeb at ddibenion yr Erthygl hon.

**Erthygl 12.5**

Darpariaeth newydd yn galluogi myfyriwr sy'n optio allan i ailymuno.

**Erthygl 23**

Diwygio "ethol" i "benodi", nid oes etholiad yn cael ei gynnal felly penodiad yw'r term cywir.

Darpariaeth newydd yn nodi nad oes angen i gyfnodau Ymddiriedolwr sy'n Fyfyrwyr yn y rôl fod yn olynol.

**Erthygl 24**

Gwnaeth Pwyllgor Llywodraethu'r Brifysgol, yn ei gyfarfod ar 26 Mai 2022, argymell "bod Undeb y Myfyrwyr yn adolygu'r criteria o fewn ei gyfansoddiad sy'n datgan y gall aelod lleyg o'r Cyngor

gwasanaethu uchafswm o 4 tymor ar Fwrdd Ymddiriedolwyr Undeb y Myfyrwyr, gan fod hyn yn anghydnaws ag uchafswm tymhorau aelodau lleyg y Cyngor." Mae'r diwygiad hwn yn ymgorffori'r argymhelliad hwnnw.

**Erthyglau 23, 24, 25**

Ym mhob achos, mae darpariaeth ynghylch statws Ymddiriedolwyr wedi cael ei symud o'r rhestr o dermau i'r erthyglau, gan fod ganddi rym rhwymol ac felly mae'n amhriodol ei gosod yn y rhestr termau. Ystyr heb ei newid.

**Erthygl 27**

Cael gwared ar "arfer cyflogaeth da" fel term goddrychol a'i gyfnewid am "polisïau AD yr UM a chyfraith cyflogaeth".

**Erthygl 32**

Dileu'r gofyniad i ragnodi cyfansoddiad Pwyllgorau, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd ar gyfer penodiadau, yn dibynnu ar sgiliau Ymddiriedolwyr yn hytrach na chategori Ymddiriedolwyr

Bellach, bydd darpariaeth newydd y bydd Ymddiriedolwr sy'n aelodau Pwyllgor yn ffurfio'r rhan fwyaf o'r aelodaeth.

**Erthygl 51**

Wedi'i diweddaru i ddarparu y bernir y Prif Weithredwr yn Ysgrifennydd at ddibenion yr Erthygl, oni bai bod y Bwrdd yn penderfynu fel arall. (Gweler hefyd Erthygl 32, ysgrifennydd i bwyllgorau).

**Rhestr Termau**

Diffiniad o bleidlais gudd wedi'i ychwanegu.

Gellir canfod copi llawn o'r Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu arfaethedig yma (https://www.cardiffstudents.com/news/article/secret/Memorandum-Articles-of-Association-Review-Adolygiad-Memorandwm-ac-Erthyglau-Cymdeithasu)

# EITEM WYTH

## A) CYNIGION SY'N DIRWYN I BEN

Bydd y cynigion canlynol a basiwyd mewn CCB yn dirwyn i ben cyn y CCB nesaf yn 2025. Maent wedi'u cyflwyno er gwybodaeth yn unig. Cafodd yr holl gynigion eu pasio yn CCB Tachwedd 2021.

- Swyddog Iaith Gymraeg Llawn-Amser ar gyfer Prifysgol Caerdydd*
- Is-Lywydd Lles a Rôl Ymgyrchu a Newid Enw*
- Mabwysiadu diffiniad Cynghrair Rhyngwladol Cofio'r Holocost o wrthsemitiaeth yn llawn
- Derbyn heb Eithriad: Amddiffyn ein Myfyrwyr Traws
- Gweithredu Diwydiannol UCU
- Polisi Seminarau, Cyfarfodydd, Gwesteion, a Digwyddiadau Hybrid
- Croeso i Ffoaduriaid – Ymgyrch Prifysgol Noddfa

*Mae strwythur Swyddogion Sabothol newydd wedi cael ei gymeradwyo mewn refferendwm ers CCB Tachwedd 2021.

**Gweler yr adran hon o'r wefan ar gyfer yr holl bolisïau - [https://www.cardiffstudents.com/your-voice/policy/](https://www.cardiffstudents.com/your-voice/policy/)**

## B) CYNIGION A GYFLWYNWYD

## CYNNIG UN: SICRHAU CYFIAWNDER: GALW O'R NEWYDD I ROI DIWEDD AR DRAIS RHYWIOL

**Nodiadau CCB**

1. Mewn adroddiad Rhyddid Gwybodaeth diweddar, mae 691 o achosion o gamymddwyn rhywiol wedi cael eu *hadrodd* dros gyfnod o bedair blynedd, gyda dim ond ***un*** diarddeliad. [1]
2. Mae cynsail cyfreithiol bod gan brifysgolion ddyletswydd gofal tuag at fyfyrwyr ynghylch camymddwyn rhywiol. [2]
3. Mae'r rhan fwyaf o oroeswyr ymosodiadau rhywiol yn adnabod eu hymosodwr, gyda'r rhan fwyaf o ymosodwr yn bartneriaid neu'n gynbartneriaid. [3]
4. Mae canran fawr o ymosodiadau rhywiol yn digwydd o dan ddylanwad alcohol neu mewn lleoliadau gydag alcohol [3], mae hwn yn amgylchedd cyffredin i lawer o fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd, yn enwedig myfyrwyr o fewn cymdeithasau chwaraeon.
5. Mae diffyg ymwybyddiaeth yn y DU nad cydsyniad yw gorfodaeth [4], gan adael dioddefwyr yn aml yn teimlo'n ddryslyd ac "ar fai" am eu hymosodiad, gydag effeithiau hirdymor ar eu hiechyd meddwl.
6. Yn aml nid yw ymosodiadau mewn perthnasoedd hirdymor yn cael eu hystyried yn drosedd difrifol gan fwyafrif mawr [4], gan arddangos yr angen am hyfforddiant cydsyniad a pherthnasoedd iach.
7. Nid yw Prifysgol Caerdydd wedi darparu diogelwch digonol o amgylch campws Cathays, gan y bu nifer o ymosodiadau o amgylch preswylfeydd prifysgol yn Cathays. [5]
8. Oherwydd natur y drosedd, yn aml nid yw ymosodiadau rhywiol yn cael eu hadrodd [6]. Mae Prifysgol Caerdydd wedi ailenwi ei gwasanaeth adrodd yn ddiweddar gydag ychydig iawn o hysbysebu, ac mae'r gwasanaeth adrodd yn anodd ei reoli a dod o hyd iddo ar fewnrwyd y myfyrwyr.
9. Mae Prifysgol Caerdydd wedi methu ag amddiffyn myfyrwyr rhag dod yn ddioddefwyr perthnasoedd amhriodol, gan nad yw prifysgol Caerdydd wedi gwahardd perthnasoedd myfyrwyr-staff. Mae hyn wedi cael canlyniadau enbyd, gan fod achos o gyn-aelod o staff yn cael ei arestio am feithrin perthynas amhriodol. [7]

10. Mae tystiolaeth bod hyfforddiant gwylwyr gweithredol yn gweithio [8], ond nid yw Prifysgol Caerdydd wedi gwneud hyn yn orfodol fel y mae'n ei wneud yn ofynnol i lenwi eich manylion meddyg teulu wrth gofrestru.
11. Mae aflonyddu rhywiol yn erbyn myfyrwyr gofal iechyd, yn enwedig myfyrwyr nyrsio ar leoliad, yn broblem eang sy'n cael effaith sylweddol ar les a dysgu myfyrwyr. [9]

**Ffynonellau**


1. Adroddiad Rhyddid Gwybodaeth Amser Gweithredu
2. https://wonkhe.com/wp-content/wonkhe-uploads/2023/10/5-10-23-Feder-and-McCamish-v-RWCMD-FINAL.pdf
3. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/natureofsexualassaultbyrapeorpenetrationenglandandwales/yearendingmarch2020#reporting-sexual-assault-to-the-police
4. https://www.endviolenceagainstwomen.org.uk/wp-content/uploads/1-Attitudes-to-sexual-consent-Research-findings-FINAL.pdf
5. https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/man-stalked-woman-through-cardiff-30072013
6. https://rainn.org/statistics/criminal-justice-system
7. https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/lecturer-no-longer-employed-university-26747835
8. https://www.breakingthesilence.cam.ac.uk/prevention-support/be-active-bystander#:~:text=Research%20shows%20that%20bystander%20intervention,in%2C%20try%20the%20ABC%20approach
9. https://www.bmj.com/content/354/sbmj.i4430


**Cred y CCB**

1. Mae gan Undeb Myfyrwyr Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd ddyletswydd gofal cyfreithiol fel y sefydlwyd gan Feder a McCamish i amddiffyn a chefnogi myfyrwyr rhag unrhyw fath o gamymddwyn rhywiol.
2. Dylai Undeb Myfyrwyr Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd gydnabod yn gyhoeddus efallai nad ydynt wedi darparu'r cymorth gorau i ddioddefwyr camymddwyn rhywiol.
3. Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â bywyd myfyrwyr gan gynnwys a heb fod yn gyfyngedig i: lety, yr Undeb Athletau, ysgolion academaidd, a chymdeithasau

Undeb y Myfyrwyr, meddu ar fesurau ataliol a llwybrau ymchwilio clir pan ddaw i gamymddwyn rhywiol.

4. Dylai prifysgolion gwneud y cymorth sydd ar gael yn glir i fyfyrwyr sy'n ddioddefwyr camymddwyn rhywiol. Dylid gwneud hyn yn glir ar nifer o blatfformau gwahanol gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: e-byst, posteri, tudalennau mewnrwyd, cofrestru.
5. Dylai'r Brifysgol allu diarddel am ymddygiad sy'n torri polisi, hyd yn oed os na cheir unigolyn yn euog gan lys barn. Os caiff cwyn ei chadarnhau, dylai'r cyflawnwr wynebu cosb briodol.
6. Mae gan y Brifysgol a Swyddogion Undeb Myfyrwyr Caerdydd ddyletswydd i hysbysu myfyrwyr am berthnasoedd iach, fel mae'n hysbysu myfyrwyr am arferion rhyw ddiogel.
7. Mae perthnasoedd rhwng aelodau staff y Brifysgol a myfyrwyr lle gallai'r staff ddylanwadu ar enw da neu raddau academaidd y myfyriwr yn peri risg uchel o gamddefnydd pŵer.
8. Dylai Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol gydnabod grym mesurau ataliol fel hyfforddiant gwylwyr gweithredol o ran camymddwyn rywiol a'u rhoi ar waith mewn sawl ffordd.
9. Mae goroeswyr trais rhywiol yn haeddu polisïau a phrosesau empathetig, tosturiol, cadarn, ac addas at y diben. Dylid dilyn hyn gan adolygiadau rheolaidd o'r polisïau a'r strwythurau o fewn y sefydliadau.

**Penderfyna'r CCB**

1. Dylai Swyddogion Undeb Myfyrwyr Caerdydd gosod a chymryd camau ataliol i amddiffyn dioddefwyr camymddwyn rhywiol. Rydym yn argymell bod hyn yn cael ei wneud trwy weithio gyda sefydliadau eraill fel 'Our Streets Now' ac ymgyrchoedd (sy'n cael eu hadolygu bob blwyddyn neu bob dwy flynedd) i hyrwyddo cydsyniad ar gampws Cathays a Champws y Mynydd Bychan.
    a. Gallai'r ymgyrchoedd gynnwys gwybodaeth am y cymorth a gynigir i ddioddefwyr, beth yw cydsyniad, perthnasoedd iach ac ati.

2. Dylai Swyddogion Undeb Myfyrwyr Caerdydd lobïo'r Brifysgol i roi ***hyfforddiant gwylwyr gweithredol*** ar waith i bob aelod o staff, a'i hyrwyddo i fyfyrwyr yn ***flynyddol***, trwy ***amrywiaeth o blatfformau***; megis, ond heb fod yn gyfyngedig i gofrestru, hyfforddiant pwyllgorau cymdeithasau a chlybiau chwaraeon, tudalennau mewnrwyd y Brifysgol, a phosteri. Dylai Swyddogion Undeb Myfyrwyr Caerdydd

hefyd weithio i roi hyfforddiant o'r fath ar waith ar gyfer holl aelodau staff Undeb y Myfyrwyr.

3. Dylai Swyddogion Undeb Myfyrwyr Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd gydnabod yn gyhoeddus fethiannau posibl o ran amddiffyn a chefnogi dioddefwyr camymddwyn rhywiol blaenorol.
4. Dylai Swyddogion Undeb Myfyrwyr Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd ddarparu gwell gwybodaeth am berthnasoedd iach trwy bosteri, fideos gwybodaeth, hyfforddiant i gymdeithasau/clybiau chwaraeon, a thudalennau ar dudalen fewnrwyd y myfyrwyr.

    a. Dylid gwneud y posteri gwybodaeth hyn yn unol â llawlyfr Cymorth i Fenywod ar berthnasoedd iechyd

    b. Dylid hefyd creu'r posteri gwybodaeth hyn gydag ymwybyddiaeth o ddiwylliant cyfredol myfyrwyr, yn enwedig o ran perthnasoedd. Rydym yn argymell bod hyn yn cael ei wneud drwy holiaduron ac adolygiadau o'r hyn y mae myfyrwyr am ei weld.
5. Dylai Swyddogion Undeb Myfyrwyr Caerdydd a phrifysgol Caerdydd hyrwyddo'r ffaith "Nad cydsyniad yw gorfodaeth" ac nad yw cydsyniad yn ymwneud â'r berthynas sydd gan y dioddefwr â'r troseddwr.
6. Dylai Swyddogion Undeb Myfyrwyr Caerdydd lobïo'r brifysgol i hyrwyddo'r gefnogaeth mae'n ei chynnig i ddioddefwyr.
7. Dylai Swyddogion Undeb Myfyrwyr Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd gydnabod y ffaith bod myfyrwyr gofal iechyd yn arbennig o agored i gamymddwyn rhywiol ar eu lleoliadau. Mewn ymateb dylai Undeb y Myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd sicrhau bod myfyrwyr ar leoliad yn gallu adrodd digwyddiadau, newid lleoliadau, a chael cynnig sawl math o gefnogaeth. Dylid hefyd hysbysu myfyrwyr yn barhaus na fydd adrodd yn cael unrhyw effaith ar eu dilyniant academaidd
8. Dylai Undeb y Myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd hysbysebu SSIT yn well, a dylid dilyn hyn gyda holiadur o wahanol ffyrdd y mae myfyrwyr yn dymuno ei weld yn cael ei hyrwyddo.
9. Dylai fod gan y Brifysgol fwy o fesurau diogelwch i amddiffyn myfyrwyr ar gampws Cathays a'r Mynydd Bychan rhag camymddwyn rhywiol, yn enwedig yn dilyn yr ymosodiad diweddar ar ddynes o dan bont Senghennydd.

**Cynigiwyd gan:** Isabel Trinkle, Rebecca Rumsey a Rowan Dominique

## CYNNIG DAU: GWRTHWYNEBU TORIADAU I GYFLEOEDD ADDYSGU AR GYFER MYFYRWYR PHD

### Nodiadau CCB

1. Yn hanesyddol mae myfyrwyr PhD wedi cael cyfleoedd addysgu gwerthfawr sy'n eu galluogi i ennill profiad addysgu hanfodol, cyfrannu at eu datblygiad proffesiynol, a chefnogi eu hunain yn ariannol.

2. Ym mis Awst 2023, ar ôl sawl blwyddyn o ymgyrchu gan Undeb y Myfyrwyr, derbyniodd myfyrwyr PhD sy'n addysgu contractau cyflogaeth, gan roi'r gydnabyddiaeth a'r hawliau cyflogaeth y maent yn eu haeddu iddynt.

3. Yn ddiweddar, mae Prifysgol Caerdydd wedi dechrau torri cyfleoedd addysgu ar gyfer myfyrwyr PhD, gan gael gwared arnynt yn llwyr mewn ysgolion fel SOCSI.

4. Mae'r toriadau hyn nid yn unig yn effeithio ar les academaidd ac ariannol myfyrwyr PhD ond hefyd yn peryglu ansawdd ac amrywiaeth y profiadau dysgu a gynigir i fyfyrwyr israddedig sy'n elwa o addysgu a mentoriaeth gan fyfyrwyr PhD.

### Cred y CCB

1. Mae profiadau addysgu yn hanfodol ar gyfer myfyrwyr PhD, yn enwedig i'r rhai sy'n gobeithio dilyn gyrfaoedd o fewn y byd academaidd neu addysg.

2. Mae cyfyngu ar gyfleoedd addysgu i fyfyrwyr PhD yn tanseilio eu datblygiad, creu ansefydlogrwydd ariannol, a’n rhwystro eu gallu i feithrin sgiliau hanfodol ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.

3. Gallai toriadau o'r fath effeithio'n negyddol ar yr amrywiaeth o safbwyntiau addysgol ar gael i fyfyrwyr israddedig, gan effeithio ar ansawdd eu haddysg.

4. Mae gan Undeb Myfyrwyr Caerdydd gyfrifoldeb i eirioli dros arferion cyflogaeth teg ac addysg o safon, i'r rhai sy'n addysgu a'r rhai sy'n dysgu.

### Penderfyna’r CCB

1. Dylai swyddogion etholedig Undeb Myfyrwyr Caerdydd wrthwynebu penderfyniad y Brifysgol i leihau cyfleoedd addysgu i fyfyrwyr PhD.

2. Dylai swyddogion etholedig Undeb Myfyrwyr Caerdydd lobïo'r brifysgol, gan eirioli am adfer ac ehangu cyfleoedd addysgu i fyfyrwyr PhD, a phwysleisio'r manteision i fyfyrwyr PhD ac israddedig.

3. Dylai swyddogion etholedig Undeb Myfyrwyr Caerdydd gynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, gan gynnwys o bosibl llythyrau agored, deisebau, a digwyddiadau i dynnu sylw at bwysigrwydd rolau addysgu PhD.

4. Dylai swyddogion etholedig Undeb Myfyrwyr Caerdydd weithio gydag adrannau perthnasol, cyrff myfyrwyr, ac aelodau o staff y Brifysgol i adolygu datrysiadau eraill a allai gynnal neu gynyddu cyfleoedd addysgu i fyfyrwyr PhD.

**Cynigiwyd gan:** Micaela Panes

## CYNNIG TRI: AMDDIFFYN EIN RHYDDID I FYNEGI UNDOD Â PHALESTEINA

**Nodiadau CCB**

1. Ers Hydref 2023, mae 400 o ysgolion a phob un o’r 12 prifysgol yn Gaza wedi cael eu dinistrio, a 600 o fyfyrwyr, 230 o athrawon ysgol, 100 o athrawon prifysgol, a 2 llywydd prifysgol wedi cael eu lladd. Mae’r Cenhedloedd Unedig (CU) yn adrodd bod o leiaf 60% o gyfleusterau addysgol (gan gynnwys 13 llyfrgell gyhoeddus) wedi'u difrodi neu eu dinistrio ac nad oes gan o leiaf 625,000 o fyfyrwyr fynediad at addysg. Mae'r CU wedi codi pryderon ynghylch y 'patrwm o ymosodiadau ar ysgolion, prifysgolion, athrawon a myfyrwyr ar lain Gaza' sydd gyfystyr â 'dinistrio systematig system addysg Palestina' gan arwain at gyhuddiadau o 'scholasticide'. [1]
2. Gwnaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd pasio cynnig yn galw am gadoediad yn CCB Undeb y Myfyrwyr yn Nhachwedd 2023. [2] Mae llawer o fyfyrwyr hefyd wedi cymryd rhan mewn gweithredu ar y campws er mwyn gwrthwynebu cysylltiadau’r Brifysgol gyda chwmnïau arfau, ynghyd â gweithgarwch arall yn y gymuned leol.
3. Yng Nghaerdydd, arestiwyd 19 unigolyn, gan gynnwys saith myfyriwr, ar y 4ydd o Fehefin 2024 mewn perthynas â'u gweithredu o blaid Palesteina. [3, 4] Cafodd yr unigolion yma eu rhyddhau ar fechnïaeth ac yna gollyngwyd y cyhuddiadau. Gwnaeth llawer o bobl, y rhai a arestiwyd ac eraill, adrodd eu bod wedi’u hanafu gan yr heddlu a honnwyd bod protestwyr du a brown wedi’u targedu gyda chymhelliant hiliol. Cafodd y myfyrwyr a gafodd eu harestio eu hatal dros dro gan y Brifysgol, ac roeddent yn amharod i ymddiried yn y Brifysgol oherwydd yr honiadau di-sail gan yr heddlu bod ganddynt y pŵer i ddirymu eu graddau.
5. Mae myfyrwyr DU sy'n ymgyrchu dros Balesteina hefyd wedi bod yn destun mesurau cosbol gan eu sefydliadau, gydag adroddiadau o brifysgolion fel Birmingham a Nottingham yn defnyddio beilïaid i symud actifyddion myfyrwyr gan ddefnyddio grym, a gwnaeth LSE atal myfyrwyr am weithredu.
6. Mae wedi bod adroddiadau o brotestwyr sy’n fyfyrwyr yn y DU yn cael eu bygwth yn gorfforol [5], gyda rhai prifysgolion hefyd yn cymryd rhan mewn "bygythiadau heddlu" yn erbyn protestwyr sy’n fyfyrwyr nad ydyn nhw'n cytuno â. [6]
7. Mae UM Caerdydd eisoes wedi pasio cynnig o'r enw "Cops Oddi Ar y Campws" yn CCB 2022, gan gondemnio trais yr heddlu yn ogystal â'u rôl wrth danseilio rhyddid i lefaru actifyddion myfyrwyr.

**Cyfeiriadau:**

[1]https://www.ohchr.org/en/press-releases/2024/04/un-experts-deeply-concerned-over-

scholasticide-gaza

[2] https://www.cardiffstudents.com/news/article/secret/Policy-statement-students-call-for-a-ceasefire-Datganiad-polisi-Galwad-myfyrwyr-am-gadoediad/#cymraeg

[3]https://www.thecanary.co/trending/2024/06/04/cardiff-palestine-protest/

[4]https://www.bbc.co.uk/news/articles/c722qnq42kro

[5]https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-oxfordshire-69005756

[6]https://www.birminghammail.co.uk/news/midlands-news/pro-palestinian-protesters-university-birmingham-29163095

**Cred y CCB**

1. Mae rhyddid academaidd yn werth a ddylai fod yn gynhenid i'n Hundeb Myfyrwyr, na ellir ei gynnal pan fod prifysgolion yn cael eu bomio, a ni ddylid cosbi'n annheg y rhai sy'n codi llais yn erbyn 'scholasticide' a hil-laddiad.
2. Dylid canmol myfyrwyr Caerdydd a pheidio â'u cosbi am weithredu'r egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol y mae'r Brifysgol yn eu dysgu yn ei chwricwla, sy'n cynnwys sefyll yn erbyn anghyfiawnder yn y byd go iawn, nid yn yr ystafell ddosbarth yn unig.
3. Nid yw'n aflonyddu i alw allan a chondemnio uwch dîm rheoli Prifysgol Caerdydd, nac unrhyw berson mewn grym, am eu cydymffurfiaeth ag anghyfiawnderau byd-eang. Mae cyfuno a drysu condemniad o'r fath ag aflonyddu nid yn unig yn niweidio myfyrwyr sydd wedi profi aflonyddu ond hefyd yn tanseilio rhyddid mynegiant.

**Penderfyna'r CCB**

1. I fynegi'n gyhoeddus undod â phrifysgolion ym Mhalesteina wedi'u dinistrio gan fomio Israel, a gyda theuluoedd y gweithwyr prifysgol a myfyrwyr a laddwyd, ar sail condemnio 'scholasticide' fel mater o bwysigrwydd academaidd a moesol i'r UM.
2. I fynegi'n gyhoeddus undod gyda myfyrwyr yng Nghaerdydd, y DU, ac o amgylch y byd sy'n defnyddio eu hawl i brotestio'n heddychlon, ac sydd wedi bod yn destun trais a mesurau cosbol am gefnogi Palesteina.
3. I gondemnio a gwrthsefyll mesurau cosbol yn erbyn actifyddion myfyrwyr o blaid Palesteina a weithredwyd gan Brifysgol Caerdydd a chyrff allanol eraill, megis yr heddlu neu'r Swyddfa

Gartref. Yn ogystal â darparu cymorth a chyngor ymarferol i aelodau sy'n wynebu'r mesurau cosbol hyn fel mater brys er mwyn diogelu myfyrwyr.

4. I lobïo'r brifysgol i ofyn am ddarpariaeth canllawiau cyfreithiol i gefnogi a grymuso myfyrwyr er mwyn iddynt allu cymryd rhan mewn gweithredu heddychlon mewn undod â Phalesteina.
5. I ysgrifennu at fwrdd gweithredol Prifysgol Caerdydd yn gofyn am ddatganiad cyhoeddus:
    a. yn cadarnhau y gall pob myfyriwr fynegi undod â Phalesteiniaid o dan ryddid academaidd a'r hawl i ryddid barn.
    b. yn egluro i staff (fel bod myfyrwyr yn cael eu trin yn gywir) a myfyrwyr, nad yw mynegi undod â Phalesteina yn ei hanfod yn wrth-semitig, gan fod credoau gwrth-Seionaidd wedi'u diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (17). [7]
    c. yn cadarnhau y bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhagweithiol i amddiffyn myfyrwyr rhag difenwi, bygwth, ac aflonyddu yn gysylltiedig ag undod â Palesteina, gan gynnwys datganiadau o undod a wneir ar gyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg, ac yn amddiffyn myfyrwyr rhag gwyliadwriaeth ar-lein o'u cyfrifon cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus neu breifat personol.
    d. yn cadarnhau na fydd y Brifysgol yn gweithio gyda'r heddlu na beilïaid preifat i gosbi myfyrwyr sy'n gweithredu o blaid Palesteina, yn unol â chanfyddiadau ac argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cops Oddi ar y Campws Undeb y Myfyrwyr a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023, a ddylai hefyd fod yn unol â'r cynnig Cops Oddi ar y Campws a basiwyd yn CCB 2022.

**Cyfeiriadau:**

[7]https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2024/02/Miller-judgment-1400780.2022-JDT.pdf

**Cynigiwyd gan:** Luke Palin

## CYNNIG PEDWAR: AMDDIFFYN HAWL MYFYRWYR I DRWYDDEDAU PARCIO YNG NGHAERDYDD

### Nodiadau CCB

1. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Caerdydd yn cynnal ymgynghoriad ar 'Gynllun Parcio i'r Ddinas', sy'n cynnwys cynnig i dynnu trwyddedau parcio oddi wrth fyfyrwyr.
2. Os yw'n cael ei basio, byddai'r polisi hwn yn golygu bod myfyrwyr, yn wahanol i drigolion eraill, yn cael eu heithrio o'r hawl i drwyddedau parcio.
3. Mae llawer o fyfyrwyr yng Nghaerdydd yn dibynnu ar geir ar gyfer gweithgarwch hanfodol, gan gynnwys cymudo i'r Brifysgol neu leoliadau, teithio i swyddi rhan-amser, gofalu am aelodau o'u teulu, a chyflawni tasgau o ddydd i ddydd megis siopa a chwaraeon.

### Cred y CCB

1. Mae myfyrwyr yn aelodau gwerthfawr o gymuned Caerdydd a dylid eu trin yn gyfartal â thrigolion eraill.
2. Mae cael gwared ar drwyddedau parcio i fyfyrwyr yn unig yn lleihau eu hawliau ac yn eu gwneud yn ddinasyddion "eilradd" yng Nghaerdydd.
3. Nid yw'r rhesymau a roddir yn yr ymgynghoriad yn ystyried yn llawn yr effaith ar fyfyrwyr sy'n dibynnu ar geir am hygyrchedd, cyfrifoldebau teuluol, ac anghenion ymarferol, ac mae'n diystyru cyfraniad myfyrwyr i'r ddinas.
4. Dylid mynd i'r afael ag amcanion cynaliadwyedd mewn modd nad sy'n effeithio'n anghymesur ar un grŵp o drigolion.
5. Mae mynediad at drwyddedau parcio yn rhan hanfodol o driniaeth gyfartal i fyfyrwyr, gyda llawer ohonynt â rhesymau dilys dros angen car, megis lleoliadau, gwaith rhan-amser, a rhwymedigaethau teuluol.

### Penderfyna'r CCB

1. I swyddogion Undeb Myfyrwyr Caerdydd wrthwynebu'n gyhoeddus y cynnig i dynnu trwyddedau parcio oddi wrth fyfyrwyr ac eirioli dros fynediad cyfartal i'r trwyddedau hyn ar gyfer myfyrwyr.
2. I fandadu swyddogion Undeb y Myfyrwyr i lobïo Cyngor Dinas Caerdydd, mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, i sicrhau bod myfyrwyr yn cadw hawliau cyfartal i drwyddedau parcio fel preswylwyr eraill.

3. I fandadu swyddogion Undeb y Myfyrwyr i ymgysylltu â phroses ymgynghori Cyngor Dinas Caerdydd er mwyn eirioli dros agwedd a dulliau cynaliadwy nad sy'n cosbi myfyrwyr yn annheg.
4. I swyddogion Undeb y Myfyrwyr gydweithio ag Undebau Myfyrwyr eraill yng Nghaerdydd, os yn bosibl, i greu ffrynt unedig wrth gefnogi hawliau myfyrwyr i drwyddedau parcio.
5. I alw ar Brifysgol Caerdydd i gefnogi'r safiad hwn yn ffurfiol ac eirioli ochr yn ochr ag Undeb y Myfyrwyr am driniaeth gyfartal i fyfyrwyr o ran mynediad at barcio.
6. Os bydd y ddeddfwriaeth cael ei phasio dylai'r swyddogion etholedig ystyried opsiynau amgen i wrthwynebu'r ddeddfwriaeth gan gynnwys galw am adolygiad barnwrol.

**Cynigiwyd gan:** Madison Hutchinson

# EITEM NAW

## HYSBYSIAD ETHOLIADAU'R GWANWYN 2025

Dydd Gwener 31ain Ionawr 2025 bydd Undeb y Myfyrwyr yn agor enwebiadau ar gyfer Etholiadau'r Gwanwyn. Bydd pob rôl swyddog sabothol a swyddog ymgyrchu 2025/2026 ar agor ar gyfer enwebiadau yn yr etholiadau yma. Os hoffech fwy o wybodaeth cadwch lygad ar wefan Undeb y Myfyrwyr (www.cardiffstudents.com) am yr Hysbysiad Etholiadau swyddogol.

**DIWEDD Y PAPURAU**